

Ditectif Brif Arolygydd

Teulu Swydd – Prif Arolygydd

Rheng: Prif Arolygydd	Adran:
Lleoliad: Tiriogaethol / Pencadlys yr Heddlu	Fetio Diogelwch: Fetio Rheoli a Gwiriad Gwrthderfysgaeth

Diben y Rôl

Uwch reolwr canol sy'n gyfrifol am gydlynu gwaith timoedd o gwnstabiliaid, rhingylliaid, arolygwyr a staff yr heddlu neu reoli adran â chyfrifoldeb swyddogaethol neu ddaearyddol penodol er mwyn darparu cymorth arbenigol ar gyfer ymchwilio i droseddau ar draws yr heddlu.

Atebolrwyddau Allweddol

Penodol i'r Rôl

1. Arwain a chyfarwyddo staff o dan eich rheolaeth gweithredol.
2. Ymgymryd â rôl Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu ar gyfer troseddau mawr sydd angen eich lefel arbenigedd.
3. Sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau ar gyfer ymchwiliadau troseddol ac ymgyrchoedd targedu rhagweithiol cudd-wybodaeth, gan gynnwys adnabod tueddiadau, targedau a chynllunio strategol.
4. Darparu mentora, arweiniad a chymorth i staff sy'n gysylltiedig â rheoli troseddau ac ymchwiliadau.
5. Darparu arweiniad strategol a thactegol effeithiol mewn ymateb i droseddau difrifol a chymhleth.
6. Monitro, gwerthuso a chydlynu camau gweithredu yn barhaus er mwyn cyflenwi perfformiad yn unol ag Amcanion Cenedlaethol a rhai'r Cynllun Heddlu a Throseddau.
7. Goruchwyllo a chyfarwyddo lleoli adnoddau drwy strwythurau pennu tasgau a chydlynu'r heddlu er mwyn sicrhau ymateb priodol ar gyfer tueddiadau trosedd a gofynion newidiol.
8. Rheoli staff o dan eich rheolaeth er mwyn uchafu effeithlonrwydd, morâl a disgyblaeth, gan dalu sylw arbennig at weithwyr, presenoldeb, lles, perfformiad a rheolaeth a datblygiad staff.
9. Bod yn gyfrifol am weithredu polisïau a phob agwedd o berfformiad gweithredol o fewn y meysydd cyfrifoldeb strategol, gan gynnwys monitro arferion gweithio er mwyn sicrhau gwerth am arian.
10. Gweithio mewn partneriaeth â'r adran Gweithrediadau Canolog, yr adran Plismona Lifrog ac adrannau eraill er mwyn sicrhau cymorth effeithiol ar gyfer materion plismona lleol.
11. Gweithio gyda phartneriaid er mwyn cyflwyno ymateb amlasiantaeth gydlynol i faterion argyfyngus sy'n effeithio ar faterion ansawdd bywyd ar lefel leol, gan gynnal hyder a ffydd ein cymunedau.
12. Ymgymryd â swyddogaethau archwilio yn ôl yr angen er mwyn sicrhau safonau ansawdd a chydymffurfiaeth.

Rôl Generig

1. Cynllunio, rheoli a monitro gweithgarwch plismona gweithredol rheng flaen a/neu arbenigol cymhleth, gan reoli blaenoriaethau a gofynion sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus o ran lleoli a sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
2. Arwain, ysgogi a denu timoedd mawr ac amrywiol o arolygwyr, rhingylliaid, cwnstabiliaid a staff heddlu, gan warchod a hyrwyddo lles y gweithlu i gynnal safonau proffesiynol a chyflwyno tîm sy'n perfformio'n dda.
3. Cyfrannu at osod, monitro ac asesu dangosyddion perfformiad allweddol y tîm er mwyn cefnogi cyflawni amcanion ehangach.
4. Gosod, monitro ac asesu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer aelodau tîm unigol ochr yn ochr ag amcanion ehangach, gan gymryd camau cywirol yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y tîm yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gyflawni goliau'r heddlu.
5. Adnabod a rheoli'r ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau mawr a/neu argyfyngus ochr yn ochr â chanllawiau a fframweithiau perthnasol, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu pennu'n briodol a bod risg yn cael ei reoli er mwyn sicrhau y gellir darparu gwasanaethau'n effeithiol.
6. Rheoli timoedd mawr gan gyfarwyddo a monitro llwyth gwaith yn unol â blaenoriaethau a chynlluniau plismona gweithredol i ddarparu ymateb effeithiol ac effeithlon i broblemau, digwyddiadau a throseddau.
7. Rheoli cyllidebau tîm mawr, gan fonitro ac adolygu gwariant er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael a gwerth am arian.
8. Dadansoddi gwybodaeth a data perfformiad yn erbyn amcanion y tîm er mwyn adrodd yn erbyn mesurau rheoli perfformiad a hysbysu cynllunio'r gweithlu.
9. Adnabod, rheoli a lliniaru peryglon a bygythiadau gweithredol yn unol â chanllawiau cenedlaethol a chynlluniau plismona gweithredol er mwyn uchafu diogelwch a lles swyddogion, staff a'r cyhoedd.
10. Datblygu a chynnal perthnasau â chymunedau a phartneriaid amlasiantaeth er mwyn hyrwyddo cydweithrediad a hysbysu cynlluniau a blaenoriaethau plismona.
11. Arwain dadansoddi a gwerthuso prosesau ac arferion presennol o fewn eich maes gwaith eich hun er mwyn adnabod cyfleoedd ar gyfer newid ac arloesedd a'u rhoi ar waith, hyrwyddo arfer gorau a galluogi gwella parhaus i blismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn timoedd.
12. Cydymffurfio â pholisïau Heddlu Dyfed-Powys ar Ddatblygu Staff, y Proffil Asesu Datblygiad, Cyfleoedd Cyfartal, Iechyd a

Diogelwch, Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu, Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth, ac ymddwyn yn unol â phrotocolau a chanllawiau'r Heddlu.

Trwyddedau/Aelodaeth Broffesiynol

- Mae asesu cymhwysedd yn erbyn safonau proffesiynol perthnasol yn ofynnol er mwyn cyflawni achrediad PIP 3. Bydd cwblhau'r rhaglen Uwch Swyddog Ymchwilio'n arwain at gael eich gosod ar y Gofrestr Uwch Swyddogion Ymchwilio PIP 3.
- Er mwyn cadw'r achrediad hwn, rhaid i chi ddangos cymhwysedd parhaus yn erbyn safonau proffesiynol yn ogystal â thystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus, yn unol â Model y Coleg.

Addysg

- Profiad sylweddol o ran cynnal ymchwiliadau difrifol a chymhleth fel Rheolwr Ymchwilio.
- Cwblhau'r portffolio a Modiwlau Troseddau Difrifol a'r Rhaglen Ddatblygu Graidd ar gyfer Uwch Swyddogion Ymchwilio yn llwyddiannus.
- Ymwybyddiaeth o brosesau gweinyddol safonol yr Ystafell Rheoli Digwyddiadau Mawr ar gyfer rheoli achosion yn effeithiol.
- Profiad o wneud penderfyniadau heriol gan ddefnyddio modelau penderfynu priodol.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o weithdrefnau, polisiau a deddfwriaethau perthnasol, y Cod Moeseg, cyfraith trosedd a chyfraith gwlad.
- Profiad o reoli gweithdrefnau paralel.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

1. Sicrhau cofnod o brofiad diweddar o ran cynnal mathau gwahanol o ymchwiliadau cymhleth a difrifol yn effeithiol, e.e. mae dynladdiad, cam-drin/cam-fanteisio ar blant yn rhywiol, diogelwch cyhoeddus cymhleth a/neu dwyll difrifol, yn cael ei gynnal ac yn dangos y wybodaeth a'r sgiliau rydych chi wedi ennill fel rhan o gynnal achrediad PIP Lefel 3.
2. Ceisio'n barhaus i gynnal a gwella sgiliau a gwybodaeth y tîm ac unigolion er mwyn sicrhau cymhwysedd yn y rôl. Dylai hyn gynnwys adnabod anghenion unigol a chyfleoedd ar gyfer datblygu gan ddefnyddio amryw o weithgareddau i wella perfformiad, gan gynnwys hyrwyddo gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus pan fod angen.
3. Cynnig eich sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd fel 'cyfaill beirniadol' i Uwch Swyddogion Ymchwilio, gan arwain ar ymchwiliadau gwahanol lle bo'n berthnasol.
4. Rhannu arfer da ar gyfer ymchwiliadau gyda chydweithwyr yn rheolaidd e.e. cyfrannu at gymunedau POLKA perthnasol neu gyflwyno sesiynau gwybodaeth anffurfiol o fewn yr heddlu.
5. Cynnal gwybodaeth ymarferol o'r ffordd y gall asiantaethau eraill y llywodraeth, megis yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, gynorthwyo ag ymchwilio i achosion a gweithio i ddatblygu sgiliau rhwydweithio.
6. Sicrhau cynrychiolaeth briodol mewn cyfarfodydd partneriaeth a/neu amlasiantaeth pan fod angen, a chyfrannu atynt pan yn briodol.
7. Gweithio'n agos â chydweithwyr yn yr Adran Gudd-wybodaeth er mwyn datblygu gweithdrefnau cryf mewn perthynas â throi cudd-wybodaeth yn dystiolaeth.
8. Pan yn briodol, datblygu gwybodaeth berthnasol a phrofiad o dactegau plismona cudd, a sut y gall y rhain gefnogi ymchwiliad.
9. Hyfforddi a/neu fentora cydweithwyr llai profiadol e.e. Ymchwilywyr PIP 2 a Goruchwylwyr PIP2 a chyflwyno sesiynau hyfforddi er mwyn cefnogi dysgu a datblygu.
10. Ceisio'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaethau newydd a deddfwriaethau sy'n datblygu (gan gynnwys canllawiau presennol ar ddatgelu) a blaenoriaethau plismona cenedlaethol presennol e.e. bregusrwydd, a allai effeithio ar ymchwiliadau.
11. Ceisio'r wybodaeth ddiweddaraf am bob datblygiad technegol a allai helpu troseddwr i gyflawni troseddau.
12. Deall effaith adroddiadau Dysgu'r Gwersi Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu sy'n ymwneud ag ymchwiliadau, e.e. pwysigrwydd rheoli ffeiliau achos.
13. Ymgyfarwyddo ag adroddiadau perthnasol eraill Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, e.e. defnydd yr heddlu o rym: tystiolaeth o gwynion, ymchwiliadau a chanfyddiad y cyhoedd ac adroddiadau perthnasol Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (AHGTAEM), e.e. asesiadau PEEL.
14. Ceisio'r wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau ar gyfer cynnal y broses Proffil Asesu Datblygiad a gweithredu hyn i'ch gwaith.
15. Sicrhau gwybodaeth am unrhyw gyfrifoldebau rheolwr llinell mewn perthynas â gweithdrefnau Asesu ac Adnabod Cymhwysedd a gweithredu hyn i'ch gwaith.
16. Cynnal gwybodaeth a sgiliau sy'n ymwneud ag asesiadau sy'n seiliedig ar y gwaith er mwyn cynnal y rhain pan fod angen.

Noder: Darperir y swydd ddisgrifiad hon i roi braslun o ddyletswyddau'r swydd i'r ymgeisydd. Efallai y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn gofyn i chi gyflawni dyletswyddau eraill nad ydynt o reidrydd wedi'u nodi yn y swydd ddisgrifiad ond sy'n gymesur â graddfa'r swydd. Gellir newid y swydd ddisgrifiad o bryd i'w gilydd o fewn y cwmpas a'r lefel cyfrifoldeb sy'n berthnasol i'r swydd.

Sgiliau / Cymwysterau [i'w dangos ar y ffurflen gais]		Ffurflen Gais	Cyfweliad
Penodol ar gyfer y Rôl	1. Rhaid eich bod chi'n Arolygydd parhaol sy'n gwneud cais am ddyrchafiad, neu'n Brif Arolygydd parhaol. (H)	X	
	2. Rhaid bod gennych brofiad o blismona troseddau difrifol a defnyddio ystafelloedd rheoli digwyddiadau mawr. (H)	X	X
	3. Rhaid eich bod chi wedi cwblhau'r Rhaglen Datblygu Cychwynnol Ymchwilwyr Troseddau (ICIDP) yn llwyddiannus. (H)	X	
	4. Rhaid eich bod chi wedi cwblhau'r rhaglen Uwch Swyddog Ymchwilio yn llwyddiannus, neu'n barod i gyflawni hyn o fewn amserlen resymol. (H)	X	
	5. Rhaid dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus. (H)	X	X
	6. Rhaid eich bod chi'n medru teithio ledled yr ardal heddlu. (H)	X	
Rôl Generig	7. Rhaid eich bod chi'n medru cynllunio cylchoedd tymor byr a thymor canolig, cydlynu amrediad o weithgareddau'n briodol o fewn y swyddogaeth, paru'r rhain ag adnoddau sydd ar gael, a nodi a lliniaru risgiau i gyflenwi sy'n hysbys. (H)	X	X
	8. Rhaid eich bod chi'n medru datblygu a gweithredu cynllun effeithiol ar gyfer perthnasau â rhanddeiliaid sy'n datblygu ffydd ac yn galluogi cyfraniadau. (H)	X	X
	9. Rhaid eich bod chi'n medru denu amryw o gynulleidfaoedd drwy amrediad o gyfryngau er mwyn dwyn perswâd a/neu hysbysu. (H)	X	X
	10. Rhaid eich bod chi'n fedrus mewn gosod, monitro a galluogi perfformiad da yn erbyn amcanion perfformiad tîm a rhai unigol. (H)	X	X
	11. Rhaid eich bod chi'n medru sylweddoli pryd y gellid rhoi arferion newydd neu arferion gwell sy'n gysylltiedig â'ch maes gwaith eich hun ar waith er mwyn gwella ffyrdd o weithio. (H)	X	X
	12. Rhaid eich bod chi'n medru cyfrannu at gynllunio adnoddau, rheoli cyllidebau ariannol a defnyddio craffter masnachol i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar risg sy'n cyflwyno canlyniadau effeithiol o fewn yr adnoddau a bennwyd. (H)	X	X
	13. Rhaid eich bod chi'n medru chwilio am amrediad o wybodaeth a'i hadnabod er mwyn nodi patrymau, tueddiadau a dewisiadau ar gyfer datrys problemau amlweddog a chymhleth. (H)	X	X
	14. Rhaid eich bod chi'n fedrus mewn hyfforddi a mentora er mwyn galluogi datblygiad gyrfa a datblygiad proffesiynol priodol. (H)	X	X
	15. Rhaid eich bod chi'n medru arwain cyflwyno mentrau ar gyfer newid o fewn tîm cymhleth. (H)	X	X
	16. Rhaid eich bod chi'n medru cynnal lles a chadernid personol mewn sefyllfaoedd cymhleth a heriol, a galluogi eraill i ddatblygu lles a chadernid personol eu hun. (H)	X	X
	17. Rhaid bod gennych chi'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg hyd Lefel 1, neu fod yn barod i gyflawni hyn ymhen chwe mis o gael eich penodi. (H) [Cliciwch yma i ddarllen gofynion HDP o ran yr Iaith Gymraeg]	X	

ALLWEDD: (H) – Hanfodol (D) – Dymunol

Noder: Yn y cyfweliad, asesir ymgeiswyr yn erbyn y meini prawf a nodir yn y ddolen ganlynol: [Cliciwch yma](#). Ceir rhagor o wybodaeth am y broses gyfnewid fel rhan o'r pecyn gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr.